# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 39
21/12/20

## Bugeiliaid

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!

Rhifyn arbennig y Nadolig



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes, Jean Landon a Gwyn Rhydderch


An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid. Yn sydyn dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau. Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, “Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi'i lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid.”



Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw! “Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw a bendith Duw ar bobl.”
Pan aeth yr angylion i ffwrdd yn ôl i'r nefoedd, dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, “Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd.” Felly i ffwrdd â nhw, a dyma nhw'n dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid. Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma. Roedd pawb glywodd am y peth yn rhyfeddu at yr hyn roedd y bugeiliaid yn ei ddweud.

*Luc 2:8-18 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Yn ardal Bethlehem y noson honno roedd bugeiliaid yn gofalu am eu defaid. Yn sydyn gwelodd y bugeiliaid angel Duw yn goleuo’r awyr o’u blaenau. Roedden nhw wedi dychryn. Dywedodd yr angel wrthynt, “Peidiwch â bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi: heddiw ganwyd baban ym Methlehem, eich achubwr, fe ddowch chi o hyd iddo wedi ei rwymo mewn cadachau ac yn gorwedd mewn preseb.”



Yn sydyn llanwyd yr awyr â chôr o angylion yn canu. “Gogoniant i Dduw yn y goruchaf a heddwch ar y ddaear.” Aeth pob man yn dywyll ac roedd popeth yn dawel.
Edrychodd y bugeiliad ar ei gilydd, “Rhaid i ni fynd i weld y babi ar unwaith.” Daethant o hyd i’r baban yn union fel roedd yr angel wedi dweud wrthynt. Dywedodd y bugeiliaid wrth Mair a Joseff beth oedd wedi digwydd. Roedd hon yn noson i’w chofio. Aeth y bugeiliaid yn ôl i’r caeau yn canu mawl i Dduw.

# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Tybed gefaist ti dy ddychryn gan rywbeth rhywdro? Beth ddigwyddodd?
2. Wyt ti’n adnabod rhywun sydd wedi cael babi bach yn ddiweddar?
3. Tybed sut gefaist ti glywed am y babi hwn? Ddaeth yna angel i ddweud wrthyt ti?
4. Beth wyt ti’n ei ddysgu am y baban Iesu o’r hanes hwn am y bugeiliaid a’r angylion?
5. Os mai ti oedd un o’r bugeiliaid, beth fuaset ti’n ei ddweud wrth bobl am y baban Iesu?



# Gweddi fer




O Dduw, diolch i Ti am hanes yr angylion yn dod â’r newyddion da am eni’r baban Iesu i’r bugeiliaid. Plîs helpa fi i rannu’r newyddion da fod Iesu wedi dod i’r byd.
Amen.


# Stori i'w lliwio

## Newyddion da yr angylion

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Nid oedd lle i Mair a Joseff aros yn y llety ym Methlehem heblaw am y stabl ble roedd yr anifeiliaid yn cael eu cadw. Pan gafodd y baban Iesu ei eni fe wnaethon nhw wely iddo yng nghafn bwydo'r anifeiliaid a elwir yn breseb.




Y noson y ganed Iesu ym Methlehem roedd bugeiliaid allan yn y caeau gerllaw. Roedden nhw'n eistedd yn gwylio eu defaid er mwyn gwneud yn siŵr bod eu praidd yn ddiogel.




Yn sydyn, llanwyd yr awyr â golau llachar a disgleiriodd gogoniant Duw o'u hamgylch. Roedd y bugeiliaid wedi eu brawychu.



Yna ymddangosodd angel a siaradodd gyda nhw. " Peidiwch â bod ofn,"meddai. "Pan glywch chi'r newyddion da sydd gen i ar eich cyfer bydd eich calonnau'n llenwi â llawenydd."




"Ym Methlehem heddiw mae'r Gwaredwr wedi cael ei eni.Fo ydy Crist yr Arglwydd, anrheg gan Dduw i chi. Pan ddewch chi o hyd i fabi bach wedi ei rwymo mewn cadachau llin, meddal a'i osod yn y gwair yn y preseb, byddwch yn gwybod bod fy neges yn wir."



Yna llanwyd yr awyr dywyll â channoedd o angylion yn canmol ac yn diolch i Dduw gan ddweud, " Gogoniant yn y nefoedd i Dduw a bydded i'r holl fyd gael ei lenwi â Heddwch a Charedigrwydd tuag at bawb."



Brysiodd y bugeiliaid i Fethlehem a daethant o hyd i'r baban Iesu wedi ei lapio yn y cadachau llin,meddal, yn cysgu'n braf yn y gwair ym mhreseb yr anifeiliaid, yn union fel y dywedodd yr angel. Dywedon nhw wrth Mair a Joseff am newyddion da yr angel!




Wedi iddyn nhw adael y stabl dywedodd y bugeiliaid wrth bawb roedden nhw'n eu cyfarfod am yr angylion a'r newyddion gwych. Roedd y Gwaredwr a'r Meseia a addawyd wedi dod i'r byd o'r diwedd! Adeg y Nadolig rydyn ni'n parhau i gofio anrheg Duw i bob un ohonom.

# Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=N3DOeetvYiA




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/Ns9tpHPUkkE





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=TJIC57EvYFo

# Gweddi Greadigol

## Yn hanes y Nadolig clywn am sawl siwrne.

- Teithiodd Joseff a Mair o leiaf 110km( ar gefn asyn o bosib) o Nasareth i Fethlehem, ble y ganed y baban Iesu. Teithiodd y gwŷr doeth o'r dwyrain oedd ymhellach fyth, gan ddilyn seren ddisglair yr holl ffordd i Fethlehem (ar gefn camelod mae'n debyg).
- Clywodd y bugeiliaid y newyddion da ac mewn ymateb i'r hyn ddywedodd yr angel fe adawson nhw'r bryniau a cherdded i lawr i Fethlehem, i'r stabl er mwyn cael gweld Iesu.
- Mae yna lawer iawn o bethau'n digwydd rhwng un Nadolig a'r Nadolig nesaf. Mae bywyd fel siwrnai a chawn wahanol brofiadau ar hyd y ffordd. Meddylia am yr hyn sydd wedi newid eleni, y profiadau a'r siwrnai rwyt ti wedi ei gwneud ers y Nadolig diwethaf.
- Mae'r flwyddyn hon bron â bod ar ben. Beth ydy'r pethau mawr rwyt ti'n eu cofio am eleni? Beth ddigwyddodd? Beth oedd yn dda am y flwyddyn hon? Oedd yna brofiadau drwg neu rai trist?

Ar ddarn o bapur gwna amlinelliad â phensil o dy droed ac ysgrifenna foment bwysig yn dy fywyd tu mewn i'r amlinelliad. Gofynna i Dduw dy helpu i adael y digwyddiad hwn ar ôl i ti gychwyn ar dy siwrnai i'r flwyddyn newydd.



# Posau

Dywedodd yr angel wrth y bugeiliaid: “Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhob man yn llawen iawn.”

Fedri di helpu’r bugeiliaid i gyrraedd y stabal?








## Darganfod yr enw

Mae enw arbennig ar Iesu yn cuddio yn yr atebion i’r cwestiynau.
Rho’r llythrennau yn y blychau at ei gilydd i ddarganfod yr enw.

1. Ble’r oedd y bugeiliaid i fod i chwilio am y babi?
2. Beth oedd y bugeiliaid yn edrych ar eu holau?
3. Pryd y digwyddodd yr hanes hwn? Yn y ...
4. Pwy ddaeth â newyddion da i’r bugeiliaid?
5. Beth oedd enw Mam Iesu?
6. Wrth bwy ddywedodd y bugeiliaid yr hyn oedd wedi digwydd?

1. B _ _ _ _ _ _ _ □
2. D□ _ _ _ _
3. _ o□
4. _ ng□ _
5. _ _□r
6. _□w _

Yr enw sy’n cuddio ydy…

□□□□□□

*Mae’r ateb yn yr adnod!*

Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, ym Methlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!

## Adnod i’w dysgu

Fedri di ail drefnu’r teils i ddod o hyd i’r geiriau yr adnod?

| | | |
|---|---|---|
| | | nod 11 |
| el ei eni hedd | r Arglw | renin Da |
| hem (tref y B | Meseia! Y | Mae e |
| ydd! Luc | fydd). Ie, y | ich Achub |
| iw, yn Bethle | wr wedi ca | 2 ad |

# Crefft

## Addurn Bugail





**I wneud y bugail byddi angen:**

Papur gwyn, ffon lolipop fawr, 3 o gasys cacennau bach, glud, siswrn, edau, pensil, pinnau ffelt, tâp selo





**1**. Pwysa un o'r casys papur i lawr yn hollol wastad.



**2**. Gluda ffon lolipop yng nghanol y cas papur.



**3**. Plyga'r cas papur drosodd yn union fel y gweli di yn y llun uchod a gluda.



**4**. Pwysa'r ail gas papur i lawr yn wastad a phlyga fo yn ei hanner a'i ludo yn ei le.



**5**. Plyga fo unwaith eto a'i ludo.



**6**. Gluda'r darn ar gefn y ffon lolipop.



**7**. Tro'r bugail drosodd.



**8**. Pwysa'r cas papur i lawr yn wastad, ei blygu'n hanner a'i ludo'n ei le.



**9**. Plyga'r cas cacen unwaith eto fel y gweli di yn y llun.



**10**. Rho ychydig o lud ar gefn y ffon lolipop a rho'r cas cacen yn sownd ynddo.



**11**. Rho lud ar dop y ffon lolipop a phwysa i lawr ar y rhan o'r cas cacen sydd wedi ei blygu.



**12**. Plyga ochrau'r cas cacen drosodd fel y gweli di yn y llun a gluda.



**13**. Gwna lun wyneb i'r bugail a llun o esgidiau am ei draed.



**14**. Gwna lun ffon fugail a'i lliwio.



**15**. Torra'r ffon allan a'i gludo yn y bugail.



**16**. Gwna lun o ddafad a lliwia hi.



**17**.Torra'r ddafad allan a'i gludo yn y bugail.



**18**. Torra ddarn o edau, a'i phlygu'n hanner a gwna gwlwm.



**19**. Rho'r edau'n sownd ar gefn pen y bugail â thâp selo.



# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | A | CH | U | B | W | R | G | I | E | RH | I |
| I | G | U | DD | E | W | R | O | G | S | Y | E |
| A | R | I | U | A | L | O | G | D | U | F | S |
| M | E | S | E | I | A | S | O | E | A | E | U |
| T | E | D | Y | CH | R | Y | N | F | CH | DD | N |
| A | D | H | E | DD | W | CH | I | A | A | U | O |
| B | U | G | E | I | L | I | A | I | D | N | I |
| A | E | M | O | L | I | B | N | D | A | E | DD |
| B | W | U | D | E | TH | R | T | A | C | W | Y |
| I | D | P | R | E | S | E | B | NG | TH | A | W |
| RH | U | L | A | F | O | G | B | E | O | LL | E |
| I | I | L | O | DD | A | NG | Y | L | I | O | N |


ACHUBWR
ADDOLI
ANGEL
ANGYLION
BABI
BETHLEHEM
BUGEILIAID
CADACHAU
DEFAID
DUW
DWEUD
DYCHRYN
GOLAU
GOFALU
GOGONIANT
GORWEDD
HEDDWCH
IESU
LLAWEN
MAIR
MESEIA
MOLI
NEWYDDION
PRESEB
RHYFEDDU


# Posau

Mae'r defaid wedi bod yn crwydro.
Dilyna'r llwybrau i ddarganfod pa ddafad sy'n perthyn i ba fugail.
Lliwia'r ddafad gywir yr un lliw â'i bugail.



Fedri di weld 7 gwahaniaeth rhwng y 2 lun?





# Sialensau

## Creu stabl

Beth am fynd ati i greu stabl allan o sbwriel ailgylchu glân gyda chymeriadau hanes geni Iesu ynddi?



### Dweud wrth eraill

Rhuthrodd y bugeiliaid i weld y baban Iesu ac yna fe ruthron nhw i ddweud wrth bawb arall amdano. Pwy fedri di gysylltu â nhw i ddweud wrthynt am y Newyddion Da fod Iesu'n eu caru nhw?




### Caredigrwydd

Gwna rywbeth caredig. Ysgrifenna gerdyn neu anfona nodyn i rywun sydd angen anogaeth heddiw.

## Dafad

Gwna ddafad allan o fwydydd o dy ddewis di. Yma defnyddiwyd tatws stwnsh a llysiau.



# Rysáit



## Bisgedi sêr y Nadolig

**Cynhwysion:**

- 250g o flawd plaen
- 200g o fenyn heb halen
- 100g o siwgr eisin
- 1 melynwy
- Jam a hufen menyn fel llenwad

**Dull:**

1. Cynhesa'r popty i dymheredd o 170 gradd canradd a leinia hambyrddau pobi â phapur pobi.
2. Rhwbia'r blawd, y menyn a'r siwgr eisin â'i gilydd hyd nes bydd y gymysgedd yn edrych fel briwsion bara.
3. Ychwanega'r melynwy a thylina'r cyfan i wneud toes.
4. Lapia'r toes mewn 'clingfilm' a'i roi yn yr oergell am 30 munud.
5. Rho'r toes ar arwynebedd blodiog a'i rolio nes y bydd yn 1cm o drwch.
6. Torra siapiau sêr allan o'r toes â thorrwr siâp seren. Yna defnyddia dorrwr siâp seren llai i dorri sêr llai yng nghanol y sêr mwy.( Dyma fydd top y bisgedi.)
7. Rho nhw ar yr hambwrdd pobi a'u pobi yn y popty am tua 10 munud neu hyd nes y bydd yr ymylon wedi brownio.
8. Gad iddyn nhw oeri ac yna glyna'r sêr bach yn y sêr mawr â'r jam a'r hufen menyn.



# Canu


1. Roedd hi'n noson oer ym Methlem,
a Joseff wrth y drws.
Hen stabal frwnt, ddigysur, lwm
tra cysgai'r baban tlws.
Yn dalp o ddiniweidrwydd,
ac arno syllai Mair,
mewn syndod a rhyfeddod ar
y Duw-ddyn yn y gwair.

Dwi'n gofyn yn garedig,
dwi'n erfyn arnoch chi
i beidio bod yn swnllyd,
a chofio'r baban cu.
Mae'n cysgu nawr mor dawel,
mor llonydd yn ei grud.
Y Duwdod yn y cnawd a ddaeth
Gwaredwr i'r holl fyd.

2. Yn sydyn clywodd leisiau
llawenydd yn eu llef
a phob un am y gorau'n
rhuthro'i weld y Mab o'r nef.
Y bugeiliaid oedd yn bloeddio
a chyffro yn eu llais
ond Joseff oedd ar bigau'r drain
a dyma oedd ei gais.

3. Ac yna clywodd leisiau
mor beraidd ac mor glir
yn gogoneddu'r Arglwydd Dduw
mor swynol, O! mor glir.
Angylaidd gôr a folai
gorfoledd yn eu llais,
ond Joseff a bryderai'n fawr
a dyma oedd ai gais.
Dwi'n gofyn yn garedig…

A'r doethion ddaethant at y man
i syrthio o flaen y baban gwan,
yr Un gymerodd agwedd gwas
ddangosodd i ni Arglwydd gras.
Dwi'n gofyn yn garedig….



*Hawlfraint 2006 Susan Williams*


Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/Ns9tpHPUkkE


Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org






# Bingo


- Torra allan y sgwariau bach â lluniau arnynt a rho nhw mewn het.
- Torra allan y 4 cerdyn bingo isod ar gyfer y chwaraewyr a rho un yr un i bob chwaraewr.
- Yn ogystal â hyn rho gardiau bach,sgwâr, gwag iddynt fydd yn cael eu defnyddio i guddio'r lluniau.
- Mae un chwaraewr yn cael ei ddewis i fod yn alwr ac mae'n tynnu llun allan o'r het ac yn ei ddangos i bawb.
- Os ydy'r llun hwnnw ar gerdyn un o'r chwaraewyr bydd angen iddo guddio'r llun ag un o'r sgwariau gwag.
- Mae'r gêm yn parhau drwy i'r galwr dynnu rhagor o luniau allan o'r het. Pan fydd un o'r chwaraewyr wedi llenwi llinell â lluniau bydd angen iddo alw allan "Bingo." Y cyntaf i wneud hyn fydd yr enillydd.













## Colli'r defaid

**Bydd angen:**
- Bocs hancesi papur gwag
- Llinyn
- 12 Pêl gwlân cotwm, neu hancesi papur wedi eu gwneud yn beli – dyma'r defaid
- Amserydd

**Sut i chwarae:**
- Gwna ddau dwll un bob pen i'r bocs hancesi.
- Torra ddarn o linyn digon hir i'w glymu am ganol y cystadleuwyr.
- Rho'r peli gwlân cotwm neu'r peli hancesi papur yn y bocs.
- Clyma'r llinyn am ganol y chwaraewr.
- Mae'r chwaraewr yn ceisio ysgwyd ei gorff i wneud i'r defaid (peli gwlân cotwm/ hancesi) neidio allan o'r bocs.
- Mae'n cael munud i geisio cael pob dafad allan o'r bocs.
- Yr enillydd ydy'r chwaraewr sy'n gallu ysgwyd y nifer fwyaf o ddefaid allan o'r bocs.

## Corlannu'r Defaid

**Byddi angen:**
- Crea gorlan ar gyfer defaid gan ddefnyddio tâp neu linyn ar y llawr ym mhen draw'r lolfa neu mewn ystafell.
- Peli gwlân cotwm ar gyfer y defaid
- Llun o ffon fugail ar gerdyn
- Amserydd

**Sut i chwarae:**

<u>Un neu ddau chwaraewr</u>
Gyda'r cerdyn ffon fugail cymerwch eich tro i wyntyllu'r peli gwlân cotwm i mewn i gorlan y defaid. Amserwch eich gilydd, neu amsera dy hun, yn corlannu'r defaid.

<u>Y gêm ar gyfer y teulu</u>
Chwaraewch y gêm mewn timau fel ras gyfnewid a phob unigolyn yn cymryd ei dro i wyntyllu'r defaid i mewn i'r gorlan.




# Gweddi Greadigol

## Addoli fel angel!

Yn yr hanes am yr angylion yn dod â newydd da i'r bugeiliaid, mae'r angylion yn addoli Duw. Maen nhw'n canmol Duw am ei fod mor wych, ac am ei fod yn gwneud pethau arbennig.

Mae'n beth da i ni addoli a chanmol Duw hefyd.
Ysgrifenna bethau rwyt ti eisiau eu dweud i ganmol Duw yn y swigod siarad. Buaset yn gallu dweud rhywbeth fel "Rwyt ti mor dda", neu "Rwyt ti mor gryf".



# Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda



Fyddwn ni yn ôl ym Mis Ionawr efo pecyn fydd yn cychwyn cyfres newydd ar fywyd Iesu.